# CYNGOR CYMUNED EGLWYSBACH

MUNUDAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD DDYDD MAWRTH, TACHWEDD 7fed, 2017, YN NEUADD ABERCONWY, EGLWYSBACH.

1. CROESO - Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, a dymunodd yn arbennnig ddiolch i'r Cynghorydd John E. Jones am ei holl waith caled tra'n gweithredu fel Clerc i'r Cyngor Cymuned. Hefyd fe groesawodd John MacLennan fel y Clerc newydd.

2. YN BRESENNOL - Y Cadeirydd, y Cynghorydd Gwyn Morris Jones a'r Cynghorwyr Arthur Williams, Catherine Williams, Ceri Leeder, Gwenan Roberts, Gwilym Williams, John E. Jones, John Ll. Williams, a Phyllis Purchase.

3. YMDDIHEURIADAU - Y Cynghorydd Sir, Austin Roberts.

YMWELYDD Â'R CYNGOR

Fe groesawodd y Cadeirydd Ms. Ella Williams i'r cyfarfod. Fe gyflwynodd Ms Williams ei hun a dweud ei bod hi'n gyfrifol am ran o'r Cynllun Datblygu Gwledig (CDG) a hefyd i gefnogi Cymunedau a Busnesau, cefnogi Conwy a hefyd i frwydro'n erbyn tlodi. Rhan amlycaf ei gwaith oedd sicrhau bod cymorthdaliadau ar gael, ac roedd yn deall eu bod yn ychwanegu gwerth i faterion naturiol a diwylliannol. Roeddent hefyd yn hwyluso datblygiad busnes. Rhan o'u gwaith oedd darganfod ffyrdd newydd o ddosbarthu gwasanaethau lleol anstatudol. Roedden nhw'n gweithio ar y cyd gyda PINACL er mwyn ceisio datrys gwasanaethau band eang, ond dim ond cyllid incwm oedd ar gael. Fe fyddai'r cyfle nesaf am gymorthdaliadau'n agored ym mis Ebrill 2018, felly fe ddylai Cynghorau fod yn barod i wneud cais am grantiau erbyn hynny. Mannau eraill ar gael am grantiau yw Equipment, digwyddiadau One-Off, prosiectau cyfalafol bychain, Staff, Hyfforddi, Cludiant, treuliau a chostau gwirfoddol.

4. DATGANIADAO O DDIDDORDEB - Datgelodd y Cynghorydd Gwyn Morris Jones ddiddordeb yng nghais cynllunio 0/44513. Hefyd fe lanwodd o'r ffurflen Datganiad o Ddiddordeb.

5. MUNUDAU - PENDERFYNWYD cadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo munudau'r cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar Hydref 2ail, 2017, yn Neuadd Aberconwy, Eglwysbach.

6. MATERION YN CODI

11.17/5(i) Pont Ffordd Bryn Hir. Er bod rhan o'r gwaith wedi ei gwblhau, oherwydd y tywydd, uchder y dŵr, a'r tymor claddu pysgod, roedd y gwaith wedi dod i ben. Roedd fflodiart addas i gael ei gosod ar y bont , a dywedwyd y byddai hynny'n cael ei wneud yr wythnos nesaf.

11.17/5(i) Yr hysbysfwrdd. Roedd hwn wedi ei gael erbyn hyn ar gost o £870.00. Fe fyddid yn gwneud cais am grant ychwanegol ar gyfer hysbysfwrdd arall.

7. CYLLID - PENDERFYNWYD NODI adroddiadau'r banc.

Cyfrif wrth gefn .................................... £2069.00

Cyfrif y fynwent ................................... £2227.00

Cyfrif cyfredol ...................................... £6519.00

8. TALIADAU ALLAN - PENDERFYNWYD TALU'r rhai a enwir isod:-

11.17/7(i) W.D.Williams ......................... £330.00 - Siec 100212 (Cyfrif y fynwent)

11.17/7(ii) Mr. John E. Jones ................... £50.75 - Siec 201204

11.17/7(iii) Bodnant Joinery .................... £870.00 - Siec 201202

11.17/7(iv) Torch goffadwriaeth ............. £45.00 - 201205

11.17/7(v) Mrs Hayward .......................... £122.50 - Siec 201203

9. TALIADAU A DDERBYNIWYD - Dim.

10. GOHEBIAETH -

11.17/10(i) Wedi derbyn dogfennau Yswiriant Zurich. Y Clerc i gadarnhau'r drefn ac i ddod â hi i'r cyfarfod nesaf.

11 CYNLLUNIO -

11.17/11(i) Codi mast ffôn symudol ym Mryn-y-Frân, Eglwysbach. Roedd yr aelodau'n pryderu na fyddai'r mast yma ond yn dod â gwelliant cyfyngedig mewn derbyniad yn yr ardal, a hefyd sut y byddai'r gymuned yn elwa o'i sefydlu.

11.17/11(ii) 0/44513 Codi adeilad amaethyddol ym Modlondeb ,Ffordd Rhandir, Eglwysbach. Gadawodd y Cadeirydd y cyfarfod bryd hyn gan ei fod wedi datgelu diddordeb manteisiol yn y cais hwn. Etholodd yr aelodau'r Cynghorydd John E. Jones i gadeirio'r eitem hon. PENDERFYNWYD DIM GWRTHWYNEBIAD i'r cais. Dychwelodd y Cynghorydd Gwyn M. Jones i'rcyfarfod a pharhau yn y Gadair.

12. UNRHYW FATER ARALL

11.17/12(i) Arwydd ffordd ar gyfer Canolfan Fwyd Bodnant. Dywedwyd y byddai angen caniatâd cynllunio ar gyfer yr arwydd. Byddai'n rhaid hefyd ei osod ar bolyn dur.Byddai'n rhaid cysylltu gyda Mr. Jackson o'r adran gynllunio cyn y gellid gwneud dim byd.

11.17/129ii) Creu agoriad i hwyluso mynedfa ar gyfer tynnu coed ymaith yn Nhyddyn Iolen. (Mae achos rhif 0/44539 yn cyfeirio).Fe ymunodd aelodau'r cyhoedd gyda'r aelodau ar gyfer y rhan hon o'r cyfarfod. Fe gafwyd trafodaeth lawn. Y teimlad oedd:-

1. Nad oedd digon o amser wedi bod i ddarllen a deall yn llwyr bopeth a olygai'r ddogfennaeth gyda'r cais hwn.

2. Roedd yna bryder cyhoeddus sylweddol ynglŷn â'r cais, felly roedd angen mwy o amser i gynnwys y gymuned.

PENDERFYNWYD gofyn i'r Cyngor Sir am fwy o amser i ystyried y cais ac i gynnwys y gymuned.

11.17/12(iii) Ffromlys Chwarennog (Himalayan Balsam). Roedd yr aelodau'n bryderus ynglŷn ag ymlediad Ffromlys Chwarennog yn yr ardal. Ar ôl peth trafod PENDERFYNWYD gohirio'r mater hwn tan y gwanwyn.

11.17/12(iv) Roedd aelod yn bryderus nad oedd bysiau Llew Jones yn aros yn yr arhosfan bws y tu allan i'r swyddfa bost.PENDERFYNWYD gofyn i Llew Jones a allent hwy wneud hyn.

11.17/12(v) Roedd cwyn wedi ei derbyn ynglŷn â glanhau'r ffordd o Groesangen i Chweffordd a chroesffordd Tŷ'n Twll.

11.17/12(vi) Gofynnodd aelod a fyddai'n bosibl dargyfeirio'r gwasanaeth bws XI i gynnwys Eglwysbach ar ei thaith.

11.17/12(vii) Roedd yr aelodau'n gifidio bod cyflymder y band eang yn gyffredinol yn sâl. I gysylltu â BT.

11.17/12(viii) Gan nad oedd warden llifogydd yn y pentref fe fyddid yn gofyn i breswyliwr lleol i ymgymryd â'r rôl.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod fe orffennodd y cyfarfod am 9.10y.h.

CADEIRYDD........................................................DYDDIAD..............................................